# Adroddiad ac Argymhellion Yn Gryno

Mae Ymchwiliad Covid-19 y DU yn ymchwiliad cyhoeddus annibynnol sy'n archwilio'r ymateb i'r pandemig Covid-19, a'i effaith, er mwyn dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol. Mae wedi'i rwymo gan ei gylch gorchwyl a osodwyd gan y Prif Weinidolg ar y pryd Boris Johnson.

Roedd maint y pandemig yn ddigynsail; mae gan yr Ymchwiliad amrywiaeth enfawr o faterion i'w cwmpasu.

Penderfynodd Cadeirydd yr Ymchwiliad, y Gwir Anrhydeddus Farwnes Heather Hallett DBE, i fynd i'r afael â'r her hon trwy rannu ei waith i ymchwiliadau ar wahân. Mae pob modiwl yn canolbwyntio ar bwnc gwahanol â'i wrandawiadau cyhoeddus ei hun lle mae'r Cadeirydd yn gwrando ar dystiolaeth.

Yn dilyn gwrandawiadau, caiff argymhellion ar gyfer newidiadau eu datblygu a'u rhoi mewn Adroddiad Modiwl. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys canfyddiadau o'r dystiolaeth a gasglwyd ar draws pob modiwl ac argymhellion y Cadeirydd ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad ar gyfer Modiwl 1 (Cydnerthedd a Pharodrwydd) wedi cael ei gyhoeddi eisoes.

Mae'r ail set o fodiwlau, Modiwl 2 (y DU), Modiwl 2A (Yr Alban), Modiwl 2B (Cymru) a Modiwl 2C (Gogledd Iwerddon), yn canolbwyntio ar y penderfyniadau craidd a llywodraethiant gwleidyddol ar draws y DU mewn ymateb i'r pandemig Covid-19.

Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i'r Ymchwiliad gymharu a gwrthgyferbynnu'r dewisiadau gwahanol a wnaed gan y pedair llywodraeth wrth ymateb i'r un argyfwng ac i adnabod y gwersi pwysicaf ar gyfer ymateb i argyfyngau ledled y DU yn y dyfodol.

Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar feysydd penodol, gan gynnwys:

- Systemau gofal iechyd
- Brechlynnau a therapiwteg
- Caffael a dosbarthu cyfarpar a chyflenwadau allweddol
- Y sector gofal
- Rhaglenni profi, olrhain ac ynysu
- Plant a phobl ifanc
- Yr ymateb economaidd i'r pandemig
- Yr effaith ar gymdeithas

## Modiwl 2, 2A, 2B, 2C: Penderfyniadau craidd a llywodraethiant gwleidyddol

Mae Ymchwiliad Covid-19 y DU wedi canfod bod ymateb y pedair llywodraeth yn achos ailadroddol o 'rhy ychydig, yn rhy hwyr'.

Achubodd cyfyngiadau symud yn 2020 a 2021 fywydau heb os, ond daeth yn anochel oherwydd gweithredoedd a hepgoriadau'r pedair llywodraeth yn unig.

### Canfyddiadau allweddol

#### Covid-19 yn dod i'r amlwg

1. Nodweddwyd yr ymateb cyntaf i'r pandemig gan ddiffyg gwybodaeth a diffyg gweithredu brys.

2. Er gwaethaf arwyddion clir fod y feirws yn lledaenu'n fyd-eang, methodd y pedair cenedl a chymryd camau digon amserol ac effeithiol.

3. Golygai capasiti profi cyfyngedig a diffyg mecanweithiau arsylwi digonol nad oedd gwneuthurwyr penderfyniadau yn gwerthfawrogi'r graddau roedd y feirws yn lledaenu heb ei chanfod yn y DU a methon nhw ag adnabod lefel y bygythiad a gyflwynwyd. Cafodd hyn ei waethygu gan roi sicrwydd camarweiniol gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r farn eang fod y DU wedi'i pharatoi'n dda ar gyfer pandemig.

4. Roedd y gweinyddiaethau datganoledig yn rhy ddibynnol ar lywodaeth y DU i arwain yr ymateb.

#### Y cyfnod cloi cyntaf ledled y DU

5. Ymagwedd gychwynnol llywodraeth y DU oedd ceisio arafu lledaeniad y feirws. Erbyn 13 Mawrth 2020 roedd hi'n glir fod y gwir nifer o achosion sawl gwaith yn uwch nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol ac y byddai'r ymagwedd hon yn peryglu systemau gofal iechyd yn cael eu gorlethu.

6. Cyflwynodd llywodraeth y DU gyfyngiadau cynghorol ar 16 Mawrth 2020, gan gynnwys hunanynysu, cwarantîn yn y cartref a chadw pellter cymdeithasol. Pe byddai cyfyngiadau wedi cael eu cyflwyno'n gynharach - pan oedd nifer yr achosion yn is - gallai'r cyftngiadau symud gorfodol o 23 Mawrth fod wedi bod yn fyrrach neu'n hollol ddianghenraid.

7. Gwnaeth y diffyg gweithredu brys hwn a'r cynnydd enfawr mewn heintiadau cyfyngiadau symud gorfodol yn anochel. Dylai fod wedi cael ei gyflwyno un wythnos yn gynharach. Mae modelu yn dangos yn Lloegr yn unig y byddai tua 23,000 yn llai o farwolaethau yn y don gyntaf hyd at 1 Gorffennaf 2020.

8. Mae'r Ymchwiliad yn gwrthod y feirniadaeth bod y pedair llywodraeth yn anghywir i osod cyfnod cloi gorfodol ar 23 Mawrth 2020. Derbyniodd y pedair llywodraeth gyngor clir a diwrthdro i wneud hynny. Hebddo, byddai'r twf mewn trosglwyddo wedi arwain at golled annerbyniol o fywydau. Fodd bynnag, roedd eu methiant i weithredu'n gyflym ac yn effeithiol wedi eu rhoi yn y safle hwn.

**Gadael y cyfnod cloi cyntaf**

9. Wrth fynd i mewn i'r cyfnod cloi cyntaf, nid oedd gan un o'r pedair llywodraeth strategaeth ar gyfer pryd neu sut y byddent yn gadael y cyfnod cloi.

10. Ar 4 Gorffennaf 2020 llaciwyd y rhan fwyaf o gyfyngiadau yn Lloegr, er gwaethaf cyngor i lywodraeth y DU fod hyn yn risg uchel ac y gallai heintiadau ledaenu'n gyflymach.

11. Llaciodd llywodraethau Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon gyfyngiadau yn fwy graddol dros haf 2020, gan gynyddu'r cyfle y gallai cyfyngiadau symud ychwanegol beidio â bod yn angenrheidiol na mor gyfyngol.

12. Ond, ni rhoddodd y pedair llywodraeth ddigon o sylw i'r posibilrwydd o ail don, oedd yn golygu bod ychydig iawn o gynllunio wrth gefn mewn grym.

**Yr ail don**

13. Cyflwynodd llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Gweithredaeth Gogledd Iwerddon gyfyngiadau yn rhy hwyr gyda chyfraddau achosion yn codi yn hydref 2020 ac nid oeddent mewn grym yn ddigon hir, neu roeddent yn rhy wan i reoli lledaeniad y feirws.

14. Yn Lloegr, er gwaethaf rhybuddion, gosododd llywodraeth y DU gyfyngiadau gwan, gan ganiatáu i'r feirws barhau i ledaenu'n gyflym. Pe byddai cyfnod cloi 'torri cylched' wedi cael ei gyflwyno ar ddiwedd Medi neu ddechrau Hydref 2020, gallai'r ail gyfyngiadau symud yn Lloegr ar 5 Tachwedd wedi bod yn fyrrach neu o bosibl wedi cael eu hosgoi'n gyfan gwbl.

15. Er cael cyngor ar 5 Hydref bod cyfyngiadau ychwanegol yn angenrheidiol, ni weithredodd Llywodraeth Cymru 'doriad tân' am bythefnos hyd 23 Hydref.

16. Yng Ngogledd Iwerddon, arweiniodd cyfarfodydd Pwyllgor Gweithredol rhanedig yn wleidyddol at benderfyniadau cwbl anhrefnus. Cafodd toriad cylched pedair wythnos ei gyflwyno ar 16 Hydref 2020, er gwaethaf cyngor fod angen ymyriad chwech wythnos.

17. Yn yr Alban, golygodd cyflwyniad cyflym mesurau llym, wedi'u targedu'n lleol fod achosion wedi tyfu'n fwy graddol, gan osgoi cyfyngiadau symud ledled y genedl.

18. Ar ddiwedd 2020, cynyddodd yr amrywiolyn mwy trosglwyddadwy Alpha achosion yn gyflym. Er yn gwbl ragweladwy, methodd y pedair llywodaeth ag adnabod y bygythiad hwn ac ni wnaethant weithredu hyd y bod lefelau heintiad yn ddifrifol. Creodd hyn sefyllfa lle yr ymddangosai iddynt fod dychwelyd i gyfyngiadau symud yn amhosibl i'w osgoi.

**Cyflwyno'r brechlyn ac amrywiolion Delta ac Omicron**

19. Yn Rhagfyr 2020, y DU oedd y wlad gyntaf yn y byd i gymeradwyo brechlyn a chychwyn rhaglen frechu.

20. Pan gododd yr amrywiolyn Delta ym Mawrth 2021, roedd y pedair llywodraeth wedi dysgu o brofiad cyfnodau cyfyngiadau symud cynharach. Fe wnaethant oedi lleddfiadau a gynlluniwyd i ganiatáu amser i gyflwyno'r brechlyn fynd rhagddo. Fe wnaethant adael cyfyngiadau symud trwy gydbwyso graddfa'r heintiad yn erbyn y warchodaeth ychwanegol roedd y brechlyn yn ei gynnig.

21. Cododd yr amrywiolyn Omicron - llai difrifol ond llawer mwy trosglwyddadwy - yng ngaeaf 2021. Er gwaethaf amddiffyniad y brechlyn, golygai nifer yr achosion fod 30,000 o bobl wedi marw yn y DU rhwng Tachwedd 2021 a Mehefin 2022.

22. Roedd gan ymagwedd y pedair llywodraeth yn ail hanner 2021 elfen o risg. Pe byddai'r brechlynnau wedi bod yn llai effeithiol neu pe byddai Omicron mor ddifrifol ag amrywiolion blaenorol, byddai'r canlyniadau wedi bod yn drychinebus.

**Mae themâu** allweddol wedi codi.

### Yr angen am gynllunio cywir a bod yn barod

Mae hon yn thema gyson trwy gydol yr Ymchwiliad. Pe byddai'r DU wedi paratoi yn well, gallai bywydau fod wedi cael eu hachub, dioddefaint ei leihau, a byddai cost economaidd y pandemig wedi bod is o lawer. Byddai'r dewisiadau o flaen gwneuthurwyr penderfyniadau wedi bod yn wahanol iawn.

### Yr angen am weithredu cyflym ac effeithiol i ymladd feirws

Mae'n rhaid i lywodraethau weithredu'n gyflym ac yn bendant i fod ag unrhyw gyfle o atal lledaeniad feirws.

### Cyngor gwyddonol a thechnegol

Darparodd SAGE (y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar gyfer Argyfyngau) gyngor gwyddonol o ansawdd uchel yn gyflym iawn, ond cafodd effeithiolrwydd cyngor SAGE ei gyfyngu gan ffactorau amrywiol gan gynnwys diffyg amcanion wedi'u datgan yn glir gan lywodraeth y DU.

### Bregusrwyddau ac anghydraddoldebau

Effeithiodd y pandemig ar bawb ond nid oedd yr effaith yn gyfartal. Wynebodd pobl hŷn, pobl anabl a rhai grwpiau ethnig leiafrifol risg uwch o farw o Covid-19. Cafodd y risg gynyddol o niwed ei ddylanwadu'n gryf hefyd gan ffactorau economaidd-gymdeithasol.

Cafodd grwpiau sy'n agored i niwed ac o dan anfantais eu heffeithio hefyd gan y cyfyngiadau a gyflwynwyd i reoli'r feirws. Er i niwed fod yn rhagweladwy, ni chafodd yr effaith arnynt ei ystyried mewn cynllunio pandemig na phan gafodd penderfyniadau eu gwneud i ymateb i'r feirws.

### Penderfyniadau llywodraeth

Cafodd Cabinet y DU ei anwybyddu mewn gwneud penderfyniadau. Yn yr un modd, yn Llywodraeth yr Alban, gorweddai awdurdod gyda grŵp bach o weinidogion. Ond, roedd Cabinet Cymru yn cymryd rhan lawn, gyda phenderfyniadau yn bennaf trwy gonsensws.

Cafodd cydlynu ymateb Gweithredaeth Gogledd Iwerddon ei wanhau gan annibyniaeth weithredol adrannau a chafodd penderfyniadau eu difetha gan anghydfodau gwleidyddol.

Wrth ganol llywodraeth y DU roedd diwylliant gwenwynig ac anhrefnus.

### Cyfathrebiadau iechyd cyhoeddus

Roedd rheoli'r feirws yn dibynnu ar y cyhoedd yn deall y risg roedden nhw'n ei hwynebu a gweithredu'n briodol. Roedd yr ymgyrch 'Aros Gartref' yn effeithiol wrth uchafu cydymffurfiaeth yn y cyfyngiadau symud cyntaf, ond roedd gan ei symlrwydd risgiau, fel atal y rheini ag angen ceisio cymorth neu driniaeth feddygol rhag gadael cartref.

Gwnaeth cymhlethdod y rheoliadau, cyfyngiadau lleoledig ac amrywiadau ar draws y pedair cenedl hi'n anodd i'r cyhoedd ddeall pa reolau oedd yn gymwys.

Achosodd honiadau o dorri rheolau gan Weinidogion a chynghorwyr drallod enfawr a thanseiliodd hyder cyhoeddus yn eu llywodraethau.

### Deddfwriaeth a gorfodaeth

Tanseiliodd dryswch rhwng cyngor a chyfyngiadau cyfreithiol rhwymol ymddiriedaeth a chydymffurfiaeth a gwnaeth orfodaeth gan yr heddlu yn ymarferol amhosibl neu'r gyfreithiol ansicr mewn rhai achosion. Roedd hyn yn arbennig o wir lle roedd rheolau cyfreithiol yn amrywio ledled y DU.

### Gweithio rhynglywodraethol

Effeithiodd diffyg ymddiriedaeth rhwng y Prif Weinidog ar y pryd a rhai o arweinyddion y cenhedloedd datganoledig ar yr ymagwedd gydweithredol ar wneud penderfyniadau. Mae'n rheidrwydd i wleidyddion weithio gyda'i gilydd er budd y cyhoedd mewn unrhyw argyfwng yn y dyfodol.

## Argymhellion penodol

Yn ogystal ag adnabod 10 gwers i ffurfio'r cynllunio ar gyfer ac ymateb i bandemig, gellir canfod disgrifiad cynhwysfawr o argymhellion yr Adroddiad llawn Modiwl 2, 2A, 2B, 2C. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i weithio ochr yn ochr â'r argymhellion o Adroddiad Modiwl 1 yr Ymchwiliad, i ddiogelu'r DU yn well mewn unrhyw bandemig yn y dyfodol.

Mae'r argymhellion yn cynnwys:

- **Gwella ystyriaeth o'r effaith y gallai penderfyniadau eu cael ar y rheini mewn risg fwyaf mewn argyfwng:** Dylai newidiadau anelu at adnabod unrhyw risgiau i grwpiau sy'n agored i niwed, yn y cynllunio ar gyfer pandemig a'i ymateb iddo.
- **Lledu cyfranogaeth yn SAGE (y Grŵp Cynghorol Gwyddonol ar gyfer Argyfyngau),** trwy recriwtio arbenigwyr yn agored a chynrychiolaeth o weinyddiaethau datganoledig.
- **Diwygio ac egluro'r strwythurau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ystod argyfyngau o fewn pob cenedl**
- **Sicrhau bod penderfyniadau a'u goblygiadau yn cael eu cyfathrebu'n glir i'r cyhoedd.** Dylai cyfreithiau a chyfarwydd gael eu deall yn hawdd a bod ar gael mewn fformatau hygyrch.
- **Galluogi craffu seneddol helaethach o ddefnydd pwerau argyfwng** trwy drefniadau diogelu fel terfynau amser ac adrodd yn rheolaidd ar sut mae pwerau wedi cael eu defnyddio.
- **Sefydlu strwythurau i wella'r cyfathrebu rhwng y pedair cenedl yn ystod argyfwng** i sicrhau cydgyfeirio polisïau yn well lle'n ddymunol ac i ddarparu sail resymegol eglur ar gyfer gwahaniaethau mewn ymagwedd lle bod angen.

Mae'r Cadeirydd yn disgwyl i argymhellion gael eu gweithredu arnynt a'u rhoi ar waith o fewn y fframiau amser a amlinellir yn yr argymhellion. Bydd yr Ymchwiliad yn monitro gweithrediad yr argymhellion yn ystod ei oes.

I ddysgu mwy neu i lawrlwytho copi o Adroddiad llawn Modiwl 2, 2A, 2B, 2C neu fformatau hygyrch eraill, ewch i: https://covid19.public-inquiry.uk/reports